Cyngor Sir Ddinbych
(Stryd y Capel a ffyrdd cyfagos, Llangollen)
Gorchymyn (Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Amser) 201
Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adra nau 1(1), 2(1) i (3), 4(2), a Rhan III a Rhan IV o Atodlen 9, Deddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984, a'r holl bwerau galluogi eraill i gyflwyno gwaharddiad ar aros, llwytho a dadlwytho cerbydau ar y darnau o ffyrdd y cyfeirir atynt yn yr Atodlen isod.

Bydd eithriadau yn cael eu darparu yn y Gorchymyn arfaethedig yn caniatáu aros ar y darnau o ffordd y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i bwrpas mynd i mewn ac allan o gerbydau, a gwaith cynnal a chadw, atgyweirio ac yn y blaen.

Bydd y Gorchmynion, a restrir isod ac a wnaed yn flaenorol gan Gyngor Sir Ddinbych, yn cael eu diddymu i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r darnau ffyrdd y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn isod. Ym mhob ffordd arall, bydd y Gorchmynion yn aros yr un fath.

Gorchymyn Cydgrynhoi (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Lleoedd Parcio ar y Stryd) Cyngor Sir Ddinbych 2004

Gorchymyn (Gwahanol Strydoedd, Llangollen) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Lleoedd Parcio ar y Stryd) Cyngor Sir Ddinbych 2007

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig a map sy'n dangos y darnau o ffordd y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddynt a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Llangollen ac yn swyddfeydd y sawl sydd wedi llofnodi isod.

Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig anfon datganiad ysgrifenedig o wrthwynebiad, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun LL15 9AZ erbyn dim hwyrach na 24 Awst 2018. Dylech gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad a dylid nodi y gall y Cyngor roi ystyriaeth i'r holl sylwadau sy'n cael eu derbyn yng ngŵydd y cyhoedd a gallai sylwedd unrhyw sylwadau ynghyd ag enw a chyfeiriad y person sy'n gwneud y sylwadau hynny fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

ATODLEN
Darnau o Ffordd yn Llangollen yn Sir Ddinbych
Dim Aros, Llwytho na Dadlwytho ar Unrhyw Adeg

Cyfeirnod	Enw'r Stryd	Ochr	Lleoliad
1.01	Stryd y Bont	Gogleddol	O bwynt 9m gogledd orllewin ar hyd y palmant o Stryd y Capel i'w gyffordd gyda Stryd y Capel.
1.02	Stryd y Bont	De	O ymyl palmant gogledd orllewin Stryd y Capel am bellter o 9m i gyfeiriad y gogledd orllewin.
1.03	Stryd yr Eglwys	Gogleddol	O'i gyffordd gyda stryd y capel i bwynt 4m i'r de ddwyrain o linell adeilad i'r de ddwyrain o Stryd y Capel.
1.04	Stryd yr Eglwys	De	O'r llinell adeilad de ddwyreiniol o Stryd y Capel am bellter o 5m mewn cyfeiriad de ddwyreiniol.
1.05	Stryd y Capel	Gorllewin	O ymyl pafin de-orllewinol o Stryd y Bont am bellter o 16m i gyfeiriad y de orllewin.

Dyddiedig 25 Gorffennaf 2018

Gary Williams

Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych. LL15 1YN (SBH/DCC028900)

Datganiad o Resymau

Cyflwyno cyfyngiadau i gynorthwyo traffig i symud yn rhwydd ac atal achosion o gyfyngiadau gan gerbydau sy'n arddangos bathodyn glas yn parcio ar linellau melyn dwbl yn agos at gyffordd Stryd y Capel a Stryd y Bont.



Key:

Existing Double Yellow Lines

Existing Double Yellow Lines With Kerb Tabs

Existing Double Yellow Lines With Proposed Kerb Tabs Added

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Denbighshire County Council. 100023408. 2012

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goran. Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goran a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir Ddinbych. 100023408. 2012

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylchedd
Head of Highways and Environmental Services

Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd
Traffic, Parking and Road Safety

JOB NUMBER: TM633	SCHEME: Chapel Street and Adjoining Roads, Llangollen
DRAWING SCALE: 1:250	DRAWING TITLE: Traffic Regulation Order, Prohibition Of Waiting/Loading, At Any Time
NATIONAL GRID REFERENCE: SJ2141	
DRAWN BY: NH	DRAWING STATUS: ISSUE
APPROVED BY: PGL	LAST EDIT DATE: 01/02/18 — DRAWING NUMBER: TM633/D/01B

CYNGOR SIR DDINBYCH

(Stryd y Capel a ffyrdd cyfagos, Llangollen)
Gorchymyn (Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Amser)
201

Mae Cyngor Sir Ddinbych (y cyfeirir ato o hyn allan fel "y Cyngor"), drwy arfer y grymoedd a roddwyd iddo gan adrannau 1(1) a (2), 2(1) i (3), 4(2) a rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"), fel y'i diwygiwyd, a'r holl rymoedd galluogi eraill a roddwyd iddo, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

RHAN I
ENWI A DEHONGLI

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod o 201 ac fe'i elwir yn Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Stryd y Capel a ffyrdd cyfagos Llangollen) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Amser) 201

2. Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae gan yr ymadroddion canlynol yr ystyron a briodolir iddynt yma:

yr un ystyr sydd i "ambiwlans" ag sydd yn Neddf Ecséis a Chofrestru Cerbydau 1994;

mae "asiant awdurdodedig" yn golygu contractwr gwasanaethau parcio a benodir gan y Cyngor, neu sydd ag awdurdod priodol i weithredu ar ran y Cyngor, at ddibenion goruchwylio a gorfodi'r Gorchymyn hwn;

Mae "swyddog awdurdodedig" yn golygu Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylchedd y Cyngor neu unrhyw swyddog arall o'r Cyngor i gael eu dynodi gan y Cyngor;

yr un ystyr sydd i "bws" ag sydd yn Atodlen 1 o Reoliadau 2016;

ystyr "safle bws" yw unrhyw ardal o ffordd gerbydau a fwriedid er mwyn i fysiau allu aros sydd wedi ei dynodi gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio ag Atodlen 7 Rhan 4 Eitem 9 ac sy'n cynnwys y geiriau "safle bws" ac arwydd sy'n cydymffurfio ag Atodlen 4 Rhan 3 Eitem 2 o Reoliadau 2016;

ystyr "arhosfan bws" yw unrhyw ardal o ffordd gerbydau a fwriedid er mwyn i fysiau allu aros sydd wedi ei dynodi gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio ag Atodlen 7 Rhan 4 Eitem 9 ac sy'n cynnwys y geiriau "arhosfan bws" ac arwydd sy'n cydymffurfio ag Atodlen 4 Rhan 3 Eitem 2 o Reoliadau 2016;

ystyr "safle clirffordd bws" yw unrhyw ardal o ffordd gerbydau a fwriedid er mwyn i fysiau allu aros sydd wedi ei dynodi gan farciau ffordd sy'n cydymffurfio ag Atodlen 7 Rhan 4 Eitem 9 ac arwydd sy'n cydymffurfio ag Atodlen 4 Rhan 3 Eitem 2 o Reoliadau 2016;

ystyr "ffordd gerbydau" yw ffordd sy'n rhan o briffordd sy'n ffordd (ac eithrio trac beiciau) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy ar gyfer gyrru cerbydau arni;

yr un ystyr sydd i "swyddog gorfodi sifil" ag sydd yn Adran 76 Deddf Rheoli Traffig 2004;

yr un ystyron sydd i "gerbyd person anabl" ag sydd yn Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Eithriadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000;

ystyr "bathodyn person anabl" a "disg parcio" yw'r bathodyn a'r disg a roddir gan awdurdod lleol yn unol â darpariaethau Rheoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000, fel y'u diwygiwyd, neu fathodyn sy'n cael effaith o dan y rheoliadau hyn fel pe bai'n fathodyn person anabl;

mae "gyrrwr", o ran cerbyd sy'n aros mewn man parcio neu ar ffordd neu ddarn o ffordd, yn golygu'r unigolyn a oedd yn gyrru'r cerbyd ar yr adeg y'i gadawyd yn y man parcio hwnnw neu ar y ffordd neu ddarn o'r ffordd;

ystyr "deddfiad" yw unrhyw ddeddfiad, pa un ai cyhoeddus neu leol, ac mae'n cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu offeryn arall sydd â grym yn rhinwedd deddfiad a bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y cafodd ei ddiwygio, ei weithredu, ei gyd-gyfnerthu, ei ailddeddfu gan neu sydd â grym yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol;

mae "nwyddau" yn golygu nwyddau neu faich o unrhyw ddisgrifiad ac mae'n cynnwys pecynnau post o unrhyw ddisgrifiad;

mae "cerbyd nwyddau" yn golygu cerbyd modur sydd wedi'i adeiladu neu ei addasu i'w ddefnyddio ar gyfer cludo nwyddau neu faich o unrhyw ddisgrifiad;

ystyr "cerbyd hacni" yw cerbyd sydd wedi'i drwyddedu dan Adran 38 Deddf Cerbydau (Ecséis) 1971;

ystyr "safle tacsi" yw ardal o ffordd gerbydau sy'n cael ei chynnwys o fewn ac sydd wedi'i nodi â marciau ffordd sy'n cydymffurfio ag Atodlen 7 Rhan 4

Eitem 5 neu 7 ac arwydd sy'n cydymffurfio ag Atodlen 4 Rhan 3 Eitem 1 neu 2 o Reoliadau 2016;

yr un ystyr sydd i "ddyfais atal rhag symud" ag sydd yn Adran 104(9) Deddf 1984;

mae "sefydliad" yn golygu sefydliad sy'n ymwneud â gofalu am bobl anabl y gellir rhoi bathodyn pobl anabl iddynt, yn unol ag Adran 21(4) Deddf Cleifion Cronig a Phobl Anabl 1970;

mae "bathodyn sefydliad" yn golygu bathodyn person anabl a roddir i sefydliad;

mae "llwytho" yn golygu llwytho neu ddadlwytho nwyddau i mewn neu allan o gerbyd;

yr un ystyr sydd i "feic modur" a "cherbyd pobl anabl" ag sydd yn Adran 136 Deddf 1984;

yr un ystyr sydd i "gerbyd modur" ag sydd yn Adran 136 Deddf 1984;

mae "perchennog", mewn perthynas â cherbyd, yn golygu'r person sy'n cadw'r cerbyd. Wrth benderfynu pwy oedd perchennog cerbyd ar unrhyw adeg, cymerir mai'r perchennog oedd y person yr oedd y cerbyd wedi'i gofrestru yn eu henw ar yr adeg honno o dan Ddeddf Ecséis a Chofrestru Cerbydau 1994;

ystyr "man parcio" yw unrhyw fan parcio a nodir ar ffordd gerbydau gan farciau yn unol â Rheoliadau 2016, ar ffordd a ddynodir gan orchymyn a wnaed neu sydd â grym fel pe bai wedi'i wneud dan Ddeddf 1984;

yr un ystyr sydd i "dâl cosb" ag sydd yn Adrannau 72, 77 a 78 Deddf Rheoli Traffig 2004

mae "oriau a ganiateir" yn golygu'r oriau a nodir yn Atodlenni'r Gorchymyn hwn;

ystyr "man perthnasol", mewn perthynas â: -

(a) "bathodyn person anabl",

(i) yn achos cerbyd gyda dangosfwrdd neu banel deialau, yw bod y bathodyn yn cael ei arddangos fel bod rhan 1 o'r bathodyn yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(ii) yn achos cerbyd heb ddangosfwrdd neu banel deialau, yw bod y bathodyn wedi'i osod mewn man amlwg ar y cerbyd fel bod rhan 1 o'r bathodyn yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd;

(b) "disg parcio person anabl", yw bod modd darllen yr ochr sy'n dangos y chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros o'r tu allan i'r cerbyd;

(c) "tystysgrif hepgor",
   (i) yn achos cerbyd gyda phanel dangosfwrdd neu banel deialau, yw bod yr hawlen yn cael ei harddangos fel bod y dystysgrif yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu
   (ii) yn achos cerbyd heb ddangosfwrdd neu banel deialau, yw bod y bathodyn yn cael ei arddangos mewn man amlwg ar y cerbyd fel bod y dystysgrif yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd;

mae "safle penodedig" yn golygu y bydd cerbyd wedi'i adael mewn lle parcio, yn ystod yr oriau a ganiateir yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn hwn sydd, felly:-

(a) yn achos lle parcio y mae darpariaethau arbennig wedi'u nodi mewn perthynas ag ef ynglŷn â'r modd y mae cerbyd yn sefyll yn y lle hwnnw, yn achosi iddo sefyll yn unol â'r darpariaethau hynny;
(b) yn achos unrhyw le parcio arall –
   (i) os nad yw'r lle parcio ar stryd unffordd, fel bod ochr chwith neu ochr agosaf y cerbyd gyferbyn ag ymyl chwith y ffordd gerbydau;
   (ii) nad yw'r pellter rhwng ymyl y ffordd gerbydau ac olwyn agosaf y cerbyd dim mwy na 300 milimedr;
(c) yn golygu bod pob rhan o gerbyd o fewn cyfyngiadau man parcio;
(d) yn achosi iddo sefyll fel nad oes unrhyw ran o'r cerbyd yn rhwystro unrhyw fodd i gerbyd fynd i mewn neu allan o unrhyw safle sydd gyferbyn ag ochr y ffordd y mae'r cerbyd yn aros arni.

ystyr "oriau penodedig" yw'r oriau a nodwyd fel y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn hwn;

yr un ystyr sydd i "gyfarpar telathrebu" ag sydd yn Neddf Telathrebu 1984;

ystyr "Rheoliadau 2016" yw Rheoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddiadau Cyffredinol 2016;

ystyr "Deddf 1984" yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984;

mae "arwydd" yn golygu arwydd o unrhyw faint, lliw a math a ragnodir neu a awdurdodir yn unol â, neu sydd â grym fel pe bai wedi'i ragnodi neu ei awdurdodi yn unol ag Adran 64 Deddf 1984.

ystyr "tystysgrif hepgor" yw tystysgrif a roddwyd yn briodol ar ran y Cyngor sy'n caniatáu i gerbyd penodol aros mewn amgylchiadau penodedig ar ddarn neu ddarnau o ffordd lle, fel arall, y byddai'r cerbyd hwnnw'n cael ei rwystro rhag aros;

3. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at ffordd neu ymyl ffordd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn gyfeiriad at bob un a nodir.

4. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn rhan-ddirymu, unrhyw gyfyngiad, gwaharddiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau neu Orchmynion a wnaed, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi'u gwneud, dan Ddeddf 1984, neu gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall.

5. Ac eithrio lle nodir i'r gwrthwyneb, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at:

(a) y Gorchymyn hwn neu Orchymyn arall yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y Gorchymyn hwn neu, yn ôl y digwydd, at ryw Orchymyn arall o'r fath, fel ag y gallent fod wedi, neu fel ag y gellir, o bryd i'w gilydd, eu diwygio, eu hamrywio neu eu hategu;

(b) Statud neu Reoliad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at Statud neu Reoliadau o'r fath fel ag y gallent fod wedi, neu fel y gellir, o bryd i'w gilydd, eu diwygio neu eu hailddeddfu.

6. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol ac fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, at ddibenion Adran 21 yn y Ddeddf honno, ac fel pe bai'r Gorchmynion a ddi-rymwyd gan Erthygl 12 yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd.

RHAN II
GWAHARDDIAD AR AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO

7. Ar wahân i fel a nodir yn Erthyglau 8 a 9 y Gorchymyn hwn ni chaiff unrhyw berson, oni bai ei fod yn gweithredu yn unol â chyfarwyddyd neu ganiatâd cwnstabl yr heddlu, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros,

llwytho na dadlwytho ar y ffyrdd neu ymyl y ffyrdd a nodir ac yn ystod y cyfnodau a nodir yn yr Atodlen.

8. (1) Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 7 yn y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros yn y ffordd, ar y darnau o ffordd neu ar ochrau'r ffyrdd a nodir ynddi am gyhyd ag y gall fod yn angenrheidiol er mwyn galluogi:

(a) person i fynd i mewn neu allan o'r cerbyd;

(b) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y diben hwn ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithredoedd canlynol, sef:-

(i) gweithredoedd adeiladu, diwydiannol neu ddymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu rhannau o'r ffordd honno neu ei hymylon; a

(iv) gwaith gosod, codi, addasu neu drwsio ar dir cyfagos i'r darn o ffordd neu ymyl y ffordd a nodir, mewn perthynas ag unrhyw garthffos neu unrhyw brif gyflenwad, pibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu unrhyw linell o gyfarpar telathrebu fel y'i diffinnir yn Neddf Telathrebu 1984;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n gyfleus at y diben hwn ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau awdurdod lleol, ymgymerwr dŵr, ymgymerwr carthffosiaeth neu'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) cerbyd darparwr gwasanaeth cyffredinol (fel y'i diffinnir yn adran 4(3) a (4) Deddf Gwasanaethau Post 2000) i gael ei ddefnyddio at ddiben dosbarthu a/neu gasglu post;

(e) cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar neu'n agos at y rhan o'r ffordd neu ymylon y ffordd a nodir;

(f) cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, ambiwlansiau neu'r heddlu;

(g) mewn unrhyw achos lle mae'r person sy'n rheoli'r cerbyd,

(i) yn gorfod stopio yn unol â'r gyfraith;
(ii) yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain, neu
(iii) yn cael ei atal rhag symud ymlaen gan amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth;

(h) aros os yw'r cerbyd yn dangos tystysgrif hepgor ddilys yn y lle perthnasol ac yn aros yn unol â'r telerau a'r amodau a nodir gan y dystysgrif honno.

(2) Ni chaiff unrhyw beth yn Erthygl 7 yn y Gorchymyn hwn ei gwneud yn anghyfreithlon i achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd:
(a) aros mewn man parcio awdurdodedig, neu

(b) os yw'n gerbyd hacni, aros mewn safle tacsis.

9. Ni fydd unrhyw beth yn Erthygl 7 yn y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i yrrwr cerbyd gwasanaeth cyhoeddus beri i'r cerbyd hwnnw aros mewn safle bws cydnabyddedig neu arhosfan bws cydnabyddedig.

RHAN III
TÂL COSB

10. Os bydd person yn torri unrhyw ddarpariaeth(au) yn y Gorchymyn hwn, bydd rhaid i'r person hwnnw dalu tâl cosb.

11. Caiff y tâl cosb ei dalu yn y modd a nodir ar y rhybudd tâl cosb.

RHAN IV
DIRYMIADAU

12. Mae'r Gorchmynion traffig ffyrdd canlynol a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych yn cael eu dirymu i'r graddau eu bod yn berthnasol i waharddiadau a chyfyngiadau aros a mannau parcio stryd ar ddarnau o ffordd yn yr Atodlen hon.

Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Lleoedd Parcio ar y Stryd) (Cydgrynhoi) Cyngor Sir Ddinbych 2004

Gorchymyn (Gwahanol Strydoedd, Llangollen) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Lleoedd Parcio ar y Stryd) Cyngor Sir Ddinbych 2007

ATODLEN
Darnau o Ffordd yn Llangollen yn Sir Ddinbych
Dim Aros, Llwytho na Dadlwytho ar Unrhyw Adeg

Cyfeirnod	Enw'r Stryd	Ochr	Lleoliad
1.01	Stryd y Bont	Gogleddol	O bwynt 9m i'r gogledd orllewin ar hyd y palmant o Stryd y Capel i'w gyffordd gyda Stryd y Capel.
1.02	Stryd y Bont	De	O ymyl pafin gogledd-orllewinol Stryd y Capel am bellter o 9m metr i gyfeiriad y gogledd orllewin.
1.03	Stryd yr Eglwys	Gogleddol	O'i gyffordd gyda stryd y capel i bwynt 4m i'r de ddwyrain o linell adeilad i'r de ddwyrain o Stryd y Capel.
1.04	Stryd yr Eglwys	De	O'r llinell adeilad de ddwyreiniol o Stryd y Capel am bellter o 5m mewn cyfeiriad de ddwyreiniol.
1.05	Stryd y Capel	Gorllewin	O ymyl pafin de-orllewinol o Stryd y Bont am bellter o 16m i gyfeiriad y de orllewin.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN)
CYNGOR SIR DDINBYCH yma)
yng ngŵydd:-)

Llofnodwr Awdurdodedig

Dyddiedig y diwrnod hwn o 201

SBH/DCC028900